

PYS

1 HAU DY HADAU

Gelli di hau'r hadau o fis Ionawr ymlaen. Rho'r hadau 3cm o ddyfnder mewn potiau. Gwna'n siŵr eu bod nhw'n gynnes ac yn cael digon o ddŵr yny tŷ gwydr. Neu heua nhw'n syth i'r gwely llysiau o fis Mawrth ymlaen.

Mae llygod wrth eu boddau gyda phys. Felly, gwna'n siŵr dy fod tŷ'n gwarchod dy hadau a'r planhigion bach.

2 PLANNU ALLAN


Gelli di blannu planhigion pys allan yn y gwely llysiau pan fyddan nhw'n 10cm o daldra ac wedi tyfu dwy ddeilen neu fwy. Planna nhw mewn rhesi, gan adael 10cm rhwng pob planhigyn a 60cm rhwng pob rhes.

Planna nhw o dan strwythur fel trelis olwynion beic fel y gallan nhw ddringo i fyny. Clyma'r coesynnau'n llac at y strwythur er mwyn iddyn nhw dyfu'n dalach.

3 CYNAEAFU

Mae codennau pys yn barod i'w hel pan fyddan nhw tua 8cm o hyd a phan gelli di weld y pys y tu mewn i'r codennau. Dylet ti hel y pys yn rheolaidd i annog y planhigyn i dyfu mwy o bys.

COFIA



Bydd pys yn tyfu i fyny, a bydd eu tendrilau'n chwilio am strwythurau i'w dringo. Os nad oes strwythur sefydlog gerllaw, gelli di wneud un gyda ffyn bambw.

Gelli di hefyd hel planhigion pys i'w bwyta pan maen nhw'n ifanc. 'Egin pys' rydyn ni'n galw'r rhain a gelli di eu bwyta nhw'n gyfan mewn salad. Gelli di fwyta blodau planhigion pys hefyd.



Newydd egino



Planhigion ifanc



Barod i'w hel